COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

**Cyfeirnod Rhyddid Gwybodaeth: OPCC 06-20**

**<u>Cais:</u>**

1. Allwch chi ddweud wrthyf os gwelwch yn dda beth yw cyflog blynyddol y CHTh ac a yw hyn wedi parhau'r un peth ers y crëwyd y swydd yn 2012?
2. Faint o staff oedd gan eich swyddfa pan grëwyd hi yn Nhachwedd 2012, a beth oedd cost cyflogau blynyddol bryd hynny?
3. Faint o aelodau staff sydd gan eich swyddfa ar hyn o bryd, Ionawr 2020, a beth yw cost y cyflogau blynyddol cyfredol?
4. Faint o staff sy'n derbyn cyflog blynyddol o fwy na £100,000 ar hyn o bryd, Ionawr 2020?
5. Faint o staff y mae'r swyddfa wedi eu cyflogi ers Tachwedd 2012 a beth yw cyfanswm cost y cyflogau hyn?

<u>Eglurhad</u>:

Eglurwyd Cwestiwn 5 i'w ddarllen fel a ganlyn:

Hoffwn wybod faint o wahanol aelodau o staff sydd wedi gweithio yn y swyddfa ers ei chychwyn a swm cronnus eu holl gyflogau staff wedi eu cyfuno.

**Ymateb 1:**

Gallaf gadarnhau fod Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (SCHTh) yn dal y wybodaeth a geisiwyd, fel yr amlinellir isod:

Yn unol â dyddiad eich cais, cyflog blynyddol y Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHTh) yw £66,300. Gallaf gadarnhau fod cyflog blynyddol y CHTh yn £65,000 yn 2012. Gweithredwyd y codiad cyflog yn 2018.

**Ymateb 2:**

Gallaf gadarnhau fod Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (SCHTh) yn dal y wybodaeth a geisiwyd, fel yr amlinellir isod:

| | |
|---|---|
| Tachwedd 2012: | Cyfanswm o 8 aelod o staff (cyfrif pennau)<br>Cost Cyflogau Blynyddol: £298,721.38 |

**Ymateb 3:**

Gallaf gadarnhau fod Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (SCHTh) yn dal y wybodaeth a geisiwyd; fodd bynnag mae'r wybodaeth wedi ei chyhoeddi ar wefan SCHTh ac mae'r hyperddolenni perthnasol wedi eu nodi isod:

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

Niferoedd staff: http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/media/9107/03-opcc-structure-and-names.pdf

Costau cyflogau: http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/media/7137/1920-mtfp-and-precept-report-for-panel-v1601-final.pdf (Tudalen 41 Y Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2019/20 – 2024/25)

**Ymateb 4:**

Gallaf gadarnhau nad yw Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (SCHTh) yn dal unrhyw wybodaeth. Y mae hyn oherwydd nad oes unrhyw aelodau staff yn derbyn cyflog blynyddol o fwy na £100,000 a hynny yn Ionawr 2020.

**Ymateb 5:**

Gallaf gadarnhau fod Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (SCHTh) yn dal y wybodaeth a geisiwyd mewn perthynas â nifer y staff a gyflogwyd ers 2012, fel yr amlinellir isod:

Mae cyfanswm o 70* o aelodau staff (cyfrif pennau) wedi gweithio yn y swyddfa ers ei chychwyn yn 2012.

*Noder: Mae'r ffigur uchod yn cynnwys yr Adran Ystadau a drosglwyddodd o Heddlu Dyfed-Powys i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn y flwyddyn ariannol 2017/18 – 31 o aelodau staff (cyfrif pennau). Mae'r ffigur uchod hefyd yn cynnwys 4 (cyfrif pennau) o leoliadau myfyrwyr cyflogedig. Nid yw'r ffigur uchod yn cynnwys rôl y Comisiynydd Heddlu a Throseddu dros y cyfnod amser y gwnaed cais yn ei gylch.

Gallaf gadarnhau fod Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (SCHTh) yn dal peth o'r wybodaeth a geisiwyd ynghylch dadansoddiad o gyflogau staff; fodd bynnag cedwir y wybodaeth hon am saith mlynedd ariannol (gan gynnwys y flwyddyn ariannol gyfredol) ac felly nid oes gwybodaeth mewn perthynas â'r blynyddoedd ariannol 2012/13 na 2013/14.

Amlinellir dadansoddiad o gyflogau staff rhwng 2014/15 a'r flwyddyn ariannol gyfredol isod:

| Blwyddyn Ariannol | Cyfanswm Cyflogau Staff (£) |
|---|---|
| 2014/15 | 540,840 |
| 2015/16 | 526,996 |
| 2016/17 | 547,136 |
| 2017/18 | 1,050,885* |
| 2018/19 | 1,055,898 |
| 2019/Chwefror 2020 | 1,040,371 |

*Noder: Trosglwyddodd yr Adran Ystadau o Heddlu Dyfed-Powys i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn y flwyddyn ariannol 2017/18 – 31 o aelodau staff (cyfrif pennau).